**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Dr David Blaney
Prif Weithredwr
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Dr Blaney

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.  Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, gan gynnwys ein cylch gorchwyl, ar gael ar ein gwefan.

Yn ystod ein hymchwiliad, rydym wedi clywed am bwysigrwydd annog y rhai sy'n bresennol i ymyrryd ac, yn benodol, pwysigrwydd rhoi'r Fenter Ymyrryd ar waith. Mae Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Senedd y Deyrnas Unedig wedi argymell y dylai pob prifysgol roi'r fenter hon ar waith. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw Prifysgolion Cymru wedi neilltuo unrhyw gyllid i gyflwyno mentrau i annog y rhai sy'n bresennol i ymyrryd a/neu a ydynt wedi rhoi mentrau o'r fath, fel y Fenter Ymyrryd, ar waith.   Yn ogystal â hyn, a allech chi ddweud sut y caiff unrhyw gynlluniau eu monitro a'u gwerthuso.

Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu cynnig mewn perthynas â'n cylch gorchwyl, sydd i'w weld ar ein gwefan.

Byddem yn falch o gael eich sylwadau erbyn 22 Gorffennaf os oes modd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**